

## Pam fod angen 45cm Maint Lleiaf i Ddraenogiad y Môr?

Yn y dyfodol agos iawn, bydd Defra yn dechrau ymgynghoriad cyhoeddus, sydd am gynnig cynyddu Maint Cyfreithiol Lleiafrif (MCLI) y gellir dal a chadw draenogiad y môr gan unrhyw un yng Nghymru a Lloegr.

Y cynnig yw dylai'r MCLI fynd o 36cm (prin llai na 14") i 45 cm (prin llai na 18"), rhyw gynnydd o 9 cm neu ychydig mwy na 3". Bydd cynigion i gynyddu meintiau rhwydwaith net masnachol er mwyn lleihau dal ar ddamwain draenogiad y môr sy'n llai na 45cm hefyd yn rhan o'r ymgynghoriad hwn, er mwyn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r pysgod hyn yn cael y cyfle i silio o leiaf unwaith.

Bydd yr ymgynghoriad, ar godi'r MCLI, y cyntaf o gyfres o ymgynghoriadau, a fydd yn ddiweddarach yn cynnwys

- cynigion ar gyfer cyfyngiadau rhwydi tagell gyda'r glannau o fewn milltir i'r lan
- tymor caeedig – i amddiffyn draenogiad y môr pan yn barod i silio a
- deddfau cryfach ar gyfer ardaloedd meithrin i bellach amddiffyn draenogiaid anaeddfed
- Cyflwyno trwyddedu MASNACHOL a defnyddio tagiau sgerbwd, i leihau'r lefel uchel presennol o rwydo anghyfreithlon a gwerthu draenogiaid yn 'anghyfreithlon'.

Llunnir yr holl gynigion cadwraeth hyn er mwyn cynyddu niferoedd a maint draenogiaid yn ein dyfroedd arfordirol, gyda'r canlyniad o wella safon pysgota môr i bawb.

### **Dal yn ansicr?**

I ambell bysgotwr, efallai nad yw'r rhesymau dros gynyddu maint lleiaf draenogiad yn dal i fod yn glir. Wedi'r cyfan, nid yw'r rhan fwyaf ohonom yn dal draenogiad sy'n fwy na 36cm (1 pwys) felly pam cynnig un sy'n 45cm (2 bwys)?

Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o bysgotwyr y DU yn dal draenogiaid bychan - gan mai dyna'i gyd sydd i'w dal. Lleihawyd nifer y pysgod mawr yn ddifrifol gan flynyddoedd o or-bysgota. Mae'n wir bod rhai pysgotwyr lwcus neu fedrus yn dal ychydig o ddraenogiaid mwy, ond mae llai o lawer ohonynt nag oedd yn arfer a bod.

Er hynny, ceir nifer fawr o ddraenogiaid bach – oherwydd hinsawdd ffafriol mae'r meithrinfeidd yn cynhyrchu mwy o ddraenogiaid nag erioed ac y mae'n gaeafodd cynnes yn golygu bod mwy o'r rhain yn para'i fyw. Ond, cyn i'r pysgod bychain hyn dyfu i fod yn ddigon o faint i wneud i wialen bysgota blygu'n weddus, fe'u delir gan bysgotwyr masnachol pan y maent rhwng 36-45 cm (yn bennaf gan bysgotwyr Prydeinig o fewn ein ffiniau 6-milltir) ac ychydig iawn o'r draenogiaid sy'n para'i fyw i fod yn oedolion - pysgod gwerth mynd i'w pysgota.

Gymaint gwell y byddai i gael y cyfle o ddal yr un faint o ddraenogiaid - ond rhai dwy neu deirgwaith mor fawr!

Gyda chynyddiad ym maint draenogiaid i 45 cm, byddai'n golygu'r canlynol i bysgotwyr:

- Cyfnod byr (12-18 mis) pan na ellir cadw unrhyw ddraenogiaid maint rhwng 36 - 45cm sy'n cael eu dal. Hefyd, yn ystod y cyfnod hwn, ni fydd pysgotwyr masnachol ychwaith yn cael cadw unrhyw bysgodyn sy'n llai na 45cm ac mi fydd y cynnig i leihau'n sylweddol meintiau'r rhwydi'r un pryd yn lleihau'r daliadau damweiniol o bysgod llai.
- Wedi'r cyfnod cychwynnol hynny o 12-18 mis, nid yn unig fydd yna gynnydd flwyddyn ar flwyddyn yn **niferoedd** draenogiaid a ddelir gan y pysgotwr cyffredin, ond hefyd cynnydd blwyddyn ar flwyddyn ym **maint** y rhai hynny, fydd yn cael eu dal gan bysgotwyr môr.

- Byddai mwy o ddraenogiaid yn gallu silio. Gallai hyn sicrhau bod bridio'n cael ei facsimeiddio'n flynyddol a bod llwyddiant silio'n uchel.

Yn ddiau, synnwyr cyffredin yw hyn –

1. Lleihau nifer o'r pysgod anaeddfed sy'n cael eu cymryd gan bysgotwyr
2. gadael mwy o bysgod ar ôl i silio
3. helpu i gynhyrchu mwy o bysgod ar gyfer pysgotwyr

Mae'r dull hwn yn barod wedi creu cynnydd aruthrol yn **niferoedd** a **maint** draenogiaid rhesog i bysgotwyr yn UDA – pam na allwn ni gael yr un peth yn y DU? Wedi blynyddoedd o ymgyrchu, mae cynrychiolwyr pysgota môr yn cael eu cymryd o ddifri a dyma'n cyfle cyntaf i lywio newidiadau er mwyn gwella'n pysgodfeydd a'n sbort.

### **Peidiwch oedi – gwnewch rywbeth!**

Yn ystod adeg ymgyngoriad, bydd angen eich cymorth yn fawr iawn. I sicrhau bod y cynigion hyn, i gynyddu MCLI draenogiaid, ynghyd a mesurau eraill – megis cyflwyno cyfyngiadau rhwydi thrwyddedu masnachol - yn y pen draw yn dod â:

## ***“Mwy o Ddraenogiaid Mawr i Bysgotwyr Môr”***

**Gwylwch am ymgyngoriad cyhoeddus Defra ac ysgrifennwch mewn ymateb, er mwyn sicrhau gwelliannau i bysgota môr**

**Gwelir manylion yr ymgyngoriad gydag ymatebion awgrymedig ar**

**[www.ukbass.com](http://www.ukbass.com)**

**a thudalen pysgodfeydd ar safle gwe Defra**

**[www.defra.gov.uk/fish/fishindx.htm](http://www.defra.gov.uk/fish/fishindx.htm)**

**(dan ymgyngoriadau) yn Hydref / Tachwedd 2005**